

Eisteddfod Trevelin

Y Goron a'r Gadair i Gamwy

Roedd Clwb Fontana Trevelin dan ei sang dros benwythnos olaf mis Ebrill, gyda phobl yno o bob cwr o'r dalaith - a'r byd - ar gyfer yr Eisteddfod.

Tro'r plant oedd hi i ddangos eu doniau ddydd Gwener, ac roedd y cystadlu'n frwd - dawnsio gwerin, adrodd a chanu. Mae yna blant dawnus dros ben yn y Dyffryn, a nifer ohonyn nhw wedi dod i'r brig. Da iawn chi!

Daeth cyfle i'r oedolion ddangos eu doniau hwythau brynhawn dydd Sadwrn. Roedd safon yr ail ddiwrnod o gystadlu hefyd yn uchel, a chafodd y gynulleidfa amser braf yn gwyllo amrywiaeth o berfformiadau ar y llwyfan.

Cyhoeddwyd enwau enillwyr y cystadlaethau ffotograffiaeth ac ysgrifenedig ar y dydd Sadwrn. Ac yn goron ar yr holl gystadlu oedd prif seremonïau'r Eisteddfod.



Yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Goron am ei cherdd Sbaeneg oedd Silvia Noemi Vilar de Roca o Gaiman. Cariad oedd thema'r gerdd, gan ganolbwyntio ar gariad rhwng gŵr a gwraig.



Cipiodd Owen Tydur Jones o Drelew y Gadair, am ei gyfres o benillion Cymraeg heb fod dros 60 llinell - 'Hen Drol Cadfan'.

Dyma'r drol gyntaf gafodd ei gwneud yn y Wladfa, nôl yn 1866, ac mae'r bardd yn meddwl am ddyddiau cynnar ac anodd y Cymry yma, a'u gwaith caled yn trin y tir. Mae'n gweld olion ei gyndeidiau ar hyd yr ardal, ac yn hiraethu am y gorffennol. Mae'r drol bellach i'w gweld yn yr Amgueddfa Babyddol yn Rawson.

Gallwch ddarllen y gerdd ar dudalen tri.

Yn ystod oriau mân fore dydd Sul, canwyd 'Hen Wlad Fy Nhadau' i ddod â'r cystadlu i ben, a phawb yn barod am eu gwelyau ar ôl dau ddiwrnod prysur o gystadlu.

Ac i gloi'r penwythnos, cynhaliwyd Cymanfa Ganu yng Nghapel Bethel, Trevelin. Roedd y canu'n angerddol y bore hwnnw, ac roedd yn gyfle i ffarwelio â hen ffrindiau cyn troi tuag adref.

Teithiodd nifer i Drevelin ar gyfer y cystadlu. Dyma rai o'r enillwyr...



Mercedes Meza White -
'Excelencia Musical'.



Côr Gaiman - 'Eisteddai Teithiwr Blin'.



Rocío Fernandez a Mer-
cedes Meza White -
adrodd hyd 12 oed



Irupe Meza White
- unawd hyd 9 oed



Gonzalo Lizama -
adrodd hyd 21 oed.



Billy Hughes - unawd agored ac
emyn Cymraeg.



Côr Ysgol yr Hendre - côr hyd 10 oed



Gwanwyn - Dawnsio Gwerin 'Ceiliog y Rhedyn'



Meleri
Pinciroli -
unawd 3-4

Marco
Pinciroli -
adrodd hyd
6 oed



Ysgol Gerdd
Gaiman -
pedwarawd



Mercedes ac Imanol, Ana
Lyn a Lisa, Marcelo a Sonia
- cydradd gyntaf yn y
ddeuawd agored.

Llongyfarchiadau i bawb!

Hen Drol Cadfan

Gall fy mod yng Nglyn Du pan fo'r haul yn gwyro
dros Fryniau Mary... myfyrio'r oeddwn, ddim
am yr olwynion dŵr, ond am rodau cerbyd
dros rediad y camlesi

Efallai, cofio arogl nodweddiadol brig nos fy mhentref
a'r corwynt yn cipio'r dail crin
argoel o ddyddiau poeth y dyfodol

yn gysgodfa'r bont, haul gwan a adlewyrcha
llinynnau o sgwd gwyn, a rhaeadrau bychan
a dynwared cwyn dolurus y felin, gynt
fu'n malu'r ŷd a ddaeth o'r cae
mewn wagenni Hydref.

a dyma ni nawr yn Amgueddfa—Rawson
a'r cof, fel awelon - llef ddistaw fain - *
Yn plethu cadwynau hiraeth

“ŷja... wyt ti'n cofio hen Drol Cadfan, mor boenus
y cwynai dy olwynion trwy'r caregog lwybrau!”

o'r Gogledd, dros Fryniau Mary, machlud mae'r haul
ym mreichiau'r cart cyntefig, lle rhoddes innau
yn y cyfnos
flodau glas i atgoffa'r hen wladychwyr

“ie, cyfnos byd, iaith a hanes
...nosi mae bellach dros Ddyffryn Camwy”.

**1Brenhinoedd: 19-12 - Beibl Gymdeithas Americanaidd - 1900.*

Owen Tydur Jones

Holi Owen Tydur Jones...

- | | |
|---|--|
| 1. Ble cawsoch chi eich geni? | <i>Yn “Casalata” - ardal Ebenezer.</i> |
| 2. Beth yw eich atgof cynharaf? | <i>Y gwaith ar y ffarm.</i> |
| 3. Ble a sut wnaethoch chi ddysgu Cymraeg? | <i>Cymraeg oedd fy rhieni’n siarad ac o ganlyniad ninnau hefyd.</i> |
| 4. Beth yw eich hoff air Cymraeg? | <i>“Cariad”.</i> |
| 5. Beth ydych chi’n hoffi ei wneud? | <i>Rwyf yn hoffi ysgrifennu .</i> |
| 6. Beth nad ydych chi’n hoffi ei wneud? | <i>Nid ydwyf yn hoff o “politics”.</i> |
| 7. Pryd ddechreuoch chi ysgrifennu? | <i>Ar ôl i’r plant dyfu a myned o gartref.</i> |
| 8. O ble ry’ch chi’n cael eich ysbrydoliaeth? | <i>Fel rheol o’r anian, anianawd, natur.</i> |
| 8. Sut deimlad oedd hi i ennill Cadair Eisteddfod Trevelin? | <i>Mae llawer o bethau yn pasio dros y pen pan yr ydach ar ben y pulpit.</i> |
| 9. Beth yw eich hoff lyfr? | <i>Y Beibl.</i> |
| 10. Beth yw eich hoff/cas fwyd? | <i>Nid oes gen i ddim yn erbyn unrhyw fwyd .</i> |
| 11. Ble mae eich hoff le yn y byd? | <i>Cartref.</i> |

Cymru Camila

Camila Molina ydw i, dw i'n 16 oed a'n byw yn Nhrelew. Y llynedd, enillais i ysgoloriaeth Tom Gravel i fynd i Goleg Llanymddyfri am dymor eleni, o fis Ionawr tan ddechrau mis Ebrill (tymor y Gaeaf/Gwanwyn).

Roedd fy niwrnod cyntaf yn “ddiddorol” iawn.

Wedi arfer â'r tywydd yr amser yna o'r flwyddyn (40°C, a'n tywyllu tua 9) pan gyrhaeddais i Lundain am 4 yn y p'nawn roedd hi'n nos, ac yn oer iawn - do'n i ddim yn gallu credu'r peth! Hefyd y noson honno, dywedodd

Glyn Evans (cyn-athro yn y coleg) wrth Mike (y gyrrwr) “Ohh mae hi'n boeth iawn (8°C) heno”... Felly'r peth cyntaf feddyliais i oedd, ‘Beth yw problem y bobl 'ma?!’

Ro'n i'n byw yn y Coleg, yn nhŷ Llanofer gyda'r merched, y Bayleys, a Miss Thomas. Roedd newid ffordd o fyw yn rhyfedd, ond yn dda: pobl newydd, newid ieithoedd, tywydd newydd, rhannu'r ystafell wely gyda Wendy (dw i'n gweld eisiau'r ferch hon!), *roll-calls*, cael swper am 5.40PM, GLAW BOB DYDD, mynd i gaffi *Costas*, TEITHIO, dewis fy mhynciau, mynd i ysgol gynradd Rhys Pritchard bob dydd Gwener, mynd i eisteddfod y coleg, a llawer o bethau eraill.

Mae Cymru yn wlad hardd, a dweud y gwir. Mae'n anodd ei disgrifio. A Llanymddyfri hyd yn oed yn fwy, achos mae'n agos iawn at yr ardal “Calon Cymru”. Mwynheais i fod yna yn fawr iawn, ac ar fy rhan i a phawb sy' wedi bod yna, mae rhaid i mi ddiolch i bawb sy'n helpu (ac wedi helpu) i gadw'r cysylltiadau rhwng Cymru a'r Ariannin, ac am wneud y cyfle hwn yn bosib.



Beth ydy Menter **PATAGONIA** ?

Menter Iaith yw Menter Patagonia, sy'n rhoi cymorth i bobl ehangu eu defnydd o'r iaith Gymraeg. Yn ystod ei ymweliad â'r Wladfa yn 2001, cafodd Meirion Davies y syniad o sefydlu un yma. Ar ôl blynyddoedd o drafod a threfnu, cyrhaeddodd gweithwyr cyntaf Menter Patagonia yn 2008 - Dyfed Siôn i'r Dyffryn, a James Williams i'r Andes.

Mae'r gweithwyr yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau sy'n cynnig cyfle i bobl ddefnyddio eu Cymraeg. Dyma rai pethau mae Menter Patagonia wedi eu gwneud yn Nyffryn Camwy:

- Arwyddion drysau dwyieithog a chyfieithu bwydlenni
- Noson Gyri, Eisteddfod Dwp, Noson Gwis
- Cylch Chwarae Dolavon, Clwb Darllen Porth Madryn, Sadyrnau Sgwrsio
- Gwaith yn yr ysgolion, a dosbarthiadau Cymraeg

Yn 2009, daeth Hywel Roberts a Lois Eluned i weithio gyda Menter Patagonia, cyn Llinos Griffin ac Eluned Owenna Evans y llynedd. Eleni yw pedwaredd flwyddyn y Fenter, gydag Iwan Madog yn gweithio yn yr Andes, a Lois Dafydd yn y Dyffryn.

Bydd Menter Patagonia yn trefnu rhagor o weithgareddau dros y misoedd nesaf!

www.menterpatagonia.org

Pwy ydy Lois?

Dwi yn Nyffryn Camwy ers dau fis bellach, a'n gweithio yma gyda Menter Patagonia tan fis Tachwedd. Dwi wedi bod yn brysur iawn ers y cychwyn cyntaf, ac yn mwynhau'n fawr! Ond dyma rywfaint o fy hanes cyn cyrraedd Patagonia...

Dwi'n 25 oed, ac yn wreiddiol o Bow Street ger Aberystwyth. Fues i ym Mhrifysgol Caerdydd, gan raddio mewn Cymraeg a gwneud blwyddyn o ymchwil cyn dychwelyd i Bow Street. Bûm yn ysgrifenyddes ym Mhrifysgol Aberystwyth am rai misoedd, a'n cynilo i deithio drwy America Ganolog - dau fis a hanner o Banama i Fecsico! Roedd ymweld â'r gwledydd, eu pobl, a'u diwylliannau yn brofiad bythgofiadwy, a chododd awydd ynof i weld rhagor o'r byd...

Ond dychwelyd i Gaerdydd wnes i'n gyntaf, lle treuliais i'r ddwy flynedd diwethaf yn gweithio gyda chwmni teledu ITV Cymru. Roeddwn i'n trefnu, yn ffilmio, yn golygu, ac yn cynhyrchu gwahanol eitemau ar gyfer gwefan 'Y Dydd', a chefais brofiadau gwerthfawr yno. Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys cyfweld â'r chwaraewyr rygbi Jamie Roberts a Shane Williams.

Ond fis Chwefror eleni, gadewais i Gymru a hel fy mhac i Batagonia! Diolch o galon i bawb am y croeso a'r gydmeithas dwi wedi'i brofi hyd yn hyn. Wnaeth hi ddim cymryd llawer o amser i fi deimlo'n gartrefol iawn yma, a dwi'n edrych ymlaen yn eiddgar at y misoedd nesaf!

loisdafydd@menterpatagonia.org

2965 386 198



Noson Gyri

Cynhaliodd Menter Patagonia Noson Gyri ar yr 16eg o Ebrill. Daeth rhyw 60 o blant ac oedolion i Blas-y-Coed i flasgu'r bwyd dieithr. Ac roedd digon ohono! Cyri cyw iâr, cyri cig eidion, cyri llysieuol, ac wrth gwrs, llond y lle o reis! Syrthiodd tawelwch mawr dros yr ystafell wrth i bawb fwyta—arwydd o fwynhad, gobeithio!

Wrth ddechrau ar y pwdin, ffurfiwyd tîmau ar gyfer y cwis bwyd—a'r natur gystadleuol wedi cydio'n dynn ym mhawb!



Llongyfarchiadau i'r tîm buddugol - Judith Jones, Tegai Roberts, Angelica Evans a Graciela Colasante!



Mae pawb nawr yn gwybod mai 'catwad' yw'r gair Cymraeg am 'chutney', fod coes ôl llo o faint cyffredin yn pwyso tua 40kg, a bod 38 calori mewn 50g o yerba maté. Ond doedd pawb ddim yn hapus iawn o ddysgu'r ffaith olaf...

Daeth y noson i'w therfyn gyda chanu braf, diolch i Billy Hughes a'i gitâr. Cafwyd llawer o hwyl yn canu'r clasuron tan oriau mân y bore - 'Calon Lân', 'Ar lan y môr', 'Oes gafr eto?' a chaneuon Archentaidd.

Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson. Ry'n ni'n edrych ymlaen at y nesaf yn barod!

O Batagonia i'r Nant

Wel, dyma gyfle i ddweud 'hola' anferthol i bawb yn Nyffryn Camwy unwaith eto! Ar ôl gadael y Dyffryn, bûm yn teithio ar hyd a lled yr Ariannin a threulio Nadolig a Blwyddyn Newydd arbennig iawn ym Mariloché a Threvelin! Erbyn hyn, dwi nôl yng Nghymru ac yn gweithio yn y Ganolfan Iaith Genedlaethol yng nghanol harddwch Nant Gwrtheyrn.


Rwy'n diwtor cynorthwyol llawn amser yn rhoi dosbarthiadau i ddysgwyr o bob cwr o'r byd - hyd yn hyn, dwi wedi cyfarfod â dysgwyr o'r Alban, Lloegr a hyd yn oed Siapan, ac mae pawb i'w gweld yn mwynhau'r gwersi. Bydd y myfyrwyr yn cyrraedd ar fore Llun ac yn cael eu trochi yn yr iaith hyd brynhawn Gwener, ac er bod pawb yn gorfod gweithio'n galed yn ystod yr wythnos, rydym yn chwarae digon o gêmâu difyr, ac yn cael mynd ar daith bob dydd Mercher i Bwllheli i siopa ac i sgwrsio dros baned o de!

Mae'r Nant yn lle arbennig iawn, fel y gŵyr y rheini sydd wedi bod yma o Batagonia! Wrth i mi deithio i lawr y dibyn serth ac i waelod yr hen chwarel bob bore, mae Penrhyn Llŷn i'w weld ar ei orau gyda'r mynyddoedd dramatig yn disgyn i'r môr. Dydy o ddim yn lle drwg i weithio o gwbl! Mae hanes arbennig iawn yma hefyd a phobl wedi byw yn yr ardal ers cyn Crist, ac mae'r lle yn berwi gyda chwedlau di-ri.

Felly, os byddwch yng Nghymru rywdro, dewch i'm gweld neu hyd yn oed i'm gwersi - chewch chi ddim eich siomi!

Bienvenidos a todos!

Llinos Griffin



Gweithdy Tim Baker

Daeth Tim Baker o gwmni Theatr Ieuencid Cymru i'r Dyffryn fis diwethaf. Dros yr haf bydd yn gweithio gyda phobl ifanc Cymru ar ddrama lwyfan am hanes y Cymry ym Mhatagonia. Bu Tim Baker yn ymweld â Threlew, Dolavon, Porth Madryn a Gaiman yn ystod ei amser yma, a chynhaliodd weithdy gyda rhai o ddisgyblion Ysgol Camwy. Cafodd pawb lawer o hwyl yn chwarae gêmâu iaith, a cheisio creu darluniau trwy ddefnyddio'r corff!



Diolch yn fawr iddo am fod yn barod i helpu'r arddegau sy'n cael dosbarth Cymraeg gyda Mavis Griffiths. Roedd Caren Jones, sydd yn athrawes yn yr ysgol ac yng Nghymru ar hyn o bryd yno hefyd, yn ogystal â Lois Menter Patagonia a Luned Gonzalez.

Amddiffyn Draig Patagonia



Dwi wedi bod yn dysgu Cymraeg ym Mendoza am wythnos, i Darío Trombotto, Sabine Herfert a Vilma Thomas, yn Luján de Cuvo - lle ardderchog. Cefais i amser arbennig o dda efo'r teulu Trombotto-Herfert, a buodd hi'n heulog drwy'r wythnos, diolch byth! Enw'r grŵp ydy 'Amddiffyn Draig Patagonia', ac maen nhw'n meddwl mynd i'r Andes i astudio'r cwrs WLPAN.

Pob lwc iddyn nhw!

Delia Evans, Porth Madryn

Taith yr Urdd

Bu criw o Gymry yn ymweld â Phatagonia'n ddiweddar, ar daith i gasglu arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012. Roedd eu hamserlen yn dynn wrth iddyn nhw deithio o un man i'r llall. Cawson nhw eu croesawu i'r Dyffryn gan Ysgol yr Hendre, cyn iddyn nhw ymweld â Rawson a mwynhau te Cymreig yn Nhŷ Te Caerdydd. Roedd y Tabernacl yn orlawn ar fore Sul y Pasg a'r canu i'w glywed drwy Drelew, a threuliwyd prynhawn braf ym Mhorth Madryn. Paratowyd gwledd o asado ar eu cyfer yng Ngwalia Lân y diwrnod canlynol, cyn mynd ar daith i Dir Halen a Cheg y Ffos. A'r noson honno, cynhaliwyd noson lawen yn Nhŷ Gwyn I ffarwelio â nhw cyn iddyn nhw droi am yr Andes, gyda dawnsio gwerin, unawdau a'r côr yn canu. Roedd hi'n noson fendigedig!



Cawson nhw groeso cynnes gan bawb, ac roedd hi'n braf eu cael nhw yma!

Cyri Cyw Iâr - pryd blasus at unrhyw achlysur

Cynhwysion: 100 g o fenyn

2 winwns wedi'u torri'n ddarnau bach

2 lwy de o garam masala

1 llwy de o tsili

1 llwy de o arleg ffres wedi'i dorri

3 hedyn o bupur du

2 lwy de o saws tomato

150 ml o ddŵr

150 ml o hufen

1 llwy fwrdd o olew

1 llwy de o sinsir ffres

2 lwy de o goriander

1 llwy de o hadau cwmin

3 hedyn o gardamom

150g o iogwrt heb flas

8 darn o gyw iâr

2 ddeilen bae

Cynheswch y menyn a'r olew mewn sosban fawr, wedyn ychwanegwch y winwns a'u ffrio nes eu bod nhw'n frown.

Rhowch y sbeisys i gyd mewn bowlen, ac ychwanegwch yr halen. Cymysgwch.

Ychwanegwch yr iogwrt a'r saws tomato at y fowlen. Cymysgwch y cyfan yn dda ac ychwanegwch y cyw iâr. Gadewch am ychydig.

Rhowch y gymysgedd yn y sosban lle roedd y winwns, a choginiwch am 5 -7munud gan gymysgu bob hyn a hyn.

Ychwanegwch y dŵr a'r ddeilen bae.

Ychwanegwch yr hufen a choginiwch am 15 munud.

Bwyteuach gyda digon o reis.



Geirfa'r Mis

dan ei sang	<i>mucho gente</i>	cydio'n dynn	<i>agarrar</i>
dawn (doniau)	<i>talento(s)</i>	gweithdy	<i>taller</i>
ysgoloriaeth	<i>beca</i>	pob cwr	<i>cada rincon</i>
ehangu	<i>ampliar</i>	dod i'r brig	<i>tener exito</i>
amrywiaeth	<i>variedad</i>	gweithgareddau	<i>actividades</i>
bythgofiadwy	<i>inolvidable</i>	dychwelyd	<i>volver</i>
codi awydd	<i>dares las ganas</i>	chwarel	<i>cantera</i>
cynhwysion	<i>ingredientes</i>	meddalau	<i>hablandar</i>
trochiyn yr iaith	<i>submergirse en el idioma</i>		

Croesair Patagonia


AR DRAWS:

1. SEÑOR D. JONES (7)
2. CEFFYL J. D. EVANS (8)
4. CIG WEDI'I ROSTIO (5)
7. '___ ARF, ARF DYSG' (5)
8. Y PORTH (6)
- 11,12. 28 GORFFENNAF (4, 1, 7)
13. AP IWAN (4)
16. YR HEN WLAD (5)
18. DIOD BOBLOGAIDD (4)
20. 18_5 (4)
21. Y BRODORION (9)

I LAWR:

1. Y LLONG GYNTAF (6)
3. RHWNG DYFFRYN CAMWY A CHWM HYFRYD (4)
5. Y MERTHYR CYNTAF - _____ JENKINS (5)
6. LLENORES (6, 6)
9. Y DREF GYNTAF (6)
10. 'DYMA GWM _____' (6)
11. ADEILADODD DAVID ROBERTS Y Tŷ CYNTAF YN Y PENTREF YMA (6)
14. CHUBUT (5)
15. MYNYDDOEDD (5)
16. MORIAH, BETHEL, SEION (5)
17. 28 DE JULIO - TIR ___ (5)
19. TREF LEWIS JONES (6)

Cofiwch fod 'ch', 'dd', 'ff', 'ng', 'll', 'rh' 'th' yn un llythyren!



Diolch yn fawr i noddwyr y rhifyn hwn...

Gwalia Lân

Tŷ bwyta safonol gyda chynnyrch lleol, awyrgylch Gymreig a chroeso cynnes.

Cornel Heol Eugenio Tello
a Heol Michael D. Jones, Gaiman



Plas-y-Coed

Tŷ Te hynaf Gaiman.
Croeso Cymreig, gyda the traddodiadol a chacennau lu ers 1944.


Heol Michael D. Jones, Gaiman



Cornel y Plant

Lliwiwch Sali Mali

Anfonwch y llun wedi'i liwio at
Lois Dafydd am gyfle i
ennill gwobr.



Chwilair yr Hydref

p	w	j	o	c	a	d	a	i	r	w	eisteddfod
r	d	l	y	d	f	s	g	b	c	ff	gwobrau
t	a	s	h	g	w	o	b	r	a	u	cystadlu
ll	w	y	f	a	n	l	a	y	n	e	adrodd
g	n	c	y	s	t	a	d	l	u	b	canu
h	s	m	h	g	e	d	r	s	d	a	dawnsio
e	i	s	t	e	dd	f	o	d	l	t	coron
c	o	r	o	n	j	g	dd	f	p	o	cadair